Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Medi 3ydd, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Fran Murphy, Cyng Roy Davies, Cyng Christopher Parish, Cyng Richard Wallace, Cyng Julia Jones.
Roger Phillips (Clerc y Dref.) Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau

Cof 120 / Medi / 08 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

E/19651 Addasu ystafell storio yn ystafell wlyb gyda thoiled ar lefel y llawr ar gyfer mynediad i'r anabl yn 5, Banc y Teras
Sylw : Dim gwrthwynebiadau

E/19790 Cais am dystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd neu weithrediad yn Dŷ Tafarn (defnydd A3) yn y Salutation Inn, Heol Newydd
Sylw : Ar yr amod bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio gyda holl ofynion y Gyfraith, yna ni cheir unrhyw sylwadau pellach

E/19789 Adeiladu derbynfa newydd, estyniad i'r bwyty a thoiledau er mwyn hwyluso'r gwaith o foderneiddio ac adnewyddu Tŷ Tafarn y Salutation Inn, Heol Newydd.
Sylw : Dim sylwadau

E/19797 Estyniad ac addasiadau i adeilad rhestredig gradd 2 – Llwynhelig, Penybanc –
Sylw : Cais am amser ychwanegol er mwyn ystyried y cais

E/19799 Dymchwel ac adeiladu cegin newydd (cytunwyd arno ynghynt), lleihau uchder y to yn yr adain Fictoraidd a gwaith cysylltiedig yn Llwynhelig, Penybanc
Sylw : Cais am amser ychwanegol er mwyn ystyried y cais

Cof 121 / Medi / 08 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

E/19441 Man parcio ceir, amrywio amod 2 o ganiatâd Cynllunio E/15270, newid cynllun y maes parcio ar dir oddi ar Adeiladau'r Banc ar gyfer Gwesty'r Cawdor.
CANIATAWYD

Cof 122/ Medi / 08 Ni Thynnwyd Unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 123 / Medi / 08 Doedd yna ddim Apeliadau Cynllunio

Cof 124 / Medi / 08 Materion Cludiant a Phriffyrdd

1. CSC – Rhybudd Dros Dro y bydd Heol yr Eglwys ar gau o'r 26ain Awst am gyfnod o 6 wythnos. Nodwyd

Cof 125 / Medi / 08 Doedd yna ddim materion Trwyddedu

Cof 125 / Medi /08 Adroddiad y Swyddog Technegol

Adroddodd Mr Davies y rhoddir y baneri ar gyfer Parêd Cŵn Defaid y Byd ar Fedi'r 10fed yn eu lle ddydd Sul, Medi'r 7fed. Mae'r gwaith ar fynedfa blaen Neuadd y Sir wedi'i gwblhau.

Cof 126/ Medi/ 08 Gohebiaeth

i) CSC – parth. Polisi Drafft ar gyfer cyflwyno Addasiadau. Bydd y Cadeirydd, Cyng Colin Jenkins yn darllen ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.
ii) Y Gofrestrfa Dir. Mae'r Clerc wedi bod yn llythyru gyda'r Gofrestrfa mewn perthynas â Neuadd y Sir.
iii) Menter Bro Dinefwr – Noson Agored 15.9.08

Cof 127/ Medi / 08 Doedd yna ddim rhagor o fusnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm